# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 28 Mehefin 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Diogelu Ffermydd Teuluol

**C4 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae Christine Gwyther wedi'u cael ynghylch diogelu'r fferm deuluol? (OAQ6064)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Y mater pennaf i mi, ac i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yw diogelu ffermydd teuluol yng Nghymru. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen rhyngof a'r diwydiant ffermio a chyrff allweddol eraill, yng Nghymru a'r tu hwnt, gan gynnwys y sector adwerthu, ynghylch y modd y gall y Cynulliad Cenedlaethol gynorthwyo a diogelu ffermydd teuluol orau.

#### Ariannu Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru

**C5 Pauline Jarman:** Sut mae Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru yn cael ei ariannu? (OAQ6072) [R]

**Christine Gwyther:** Caiff pwyllgorau pysgodfeydd môr eu hariannu drwy dreth a godir ar y cynghorau cyfansoddol yn ôl y cyfrannau canrannol a bennir yn y Gorchmynion unigol sydd yn creu pob pwyllgor pysgodfeydd môr.

#### Tir Mynydd (Cymoedd De Cymru)

**C6 Jane Davidson:** Pa drafodaethau mae Christine Gwyther wedi'u cael am y cynllun Tir Mynydd a'i effaith ar ffermydd mynydd yng nghymoedd de Cymru? (OAQ6050)

**Christine Gwyther:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr undebau'r ffermwyr a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn yr wythnosau diwethaf hyn er mwyn trafod Tir Mynydd a'i effaith ar yr holl ffermwyr mynydd yng Nghymru. Ni chefais drafodaethau yn benodol â, neu ynghylch, ffermwyr mynydd yng nghymoedd de Cymru.

#### Tlodi Gwledig

**C7 Helen Mary Jones:** A yw Christine Gwyther wedi derbyn cynrychiolaethau diweddar ynghylch tlodi gwledig? (OAQ6146)

**Christine Gwyther:** Mae llawer o'r cyflwyniadau yr wyf yn eu derbyn ynglŷn â chefn gwlad Cymru yn cynnwys trafodaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â thlodi. Yr wyf yn llwyr gydnabod yr angen i wneud defnydd llawn o'r ystod eang o fesurau a gynigiwyd yn nogfennau rhaglennu sengl Amcan 1 a 2, rhaglen weithredol Amcan 3 a'r cynllun datblygu gwledig, yn ogystal â rhaglenni domestig fel 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf', er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a hybu cymunedau gwledig ffyniannus a chynaliadwy.

### Hyrwyddo Buddiannau'r Economi Wledig

**C8 Cynog Dafis:** Sut mae Christine Gwyther yn bwriadu hyrwyddo buddiannau'r economi wledig? (OAQ6151)

**Christine Gwyther:** Yr angen i ddod â'r dirywiad economaidd i ben a hybu economi wledig gynaliadwy yw sail yr holl waith a wnawn i ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n effeithio ar yr ardal. Er enghraifft, mae'r broses o ddatblygu rhaglenni Ewropeaidd sydd o fudd i Gymru wledig, megis Amcanion 1 a 2 a'r cynllun datblygu gwledig, yn cydnabod yn llwyr yr angen i hybu buddiannau'r economi wledig ac ymdrin â'r heriau penodol ac amrywiol sy'n wynebu'i chymunedau.

### Rhaglenni Datblygu Cynaliadwy (Bryniau Clwyd)

**C9 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i hyrwyddo rhaglenni datblygu cynaliadwy ar gyfer Bryniau Clwyd, ardal o harddwch naturiol eithriadol, gan ddefnyddio arian y gronfa ddatblygu Ewropeaidd a ffynonellau eraill? (OAQ6092)

**Christine Gwyther:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb ar 24 Mai (OAQ5260).

### Dosrannu Arian Ychwanegol i'r Cynllun Tir Gofal

**C10 Nick Bourne:** A oes gan Christine Gwyther gynlluniau i ddosrannu arian ychwanegol i'r cynllun Tir Gofal? (OAQ6052)

**Christine Gwyther:** Mae'r gyllideb ar gyfer Tir Gofal am 2000-01 wedi ei chynyddu eisoes o ddyraniad dechreuol o £4 miliwn i £7.5 miliwn, ac am 2001-02 o £7 miliwn i £10.9 miliwn. Bydd modwleiddio taliadau cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr o 2001 ymlaen hefyd yn darparu arian ychwanegol ar gyfer y cynllun.

### Poblogaeth Defaid Cymru

**C11 Janice Gregory:** Faint o ddefaid oedd yng Nghymru ym 1989-90 a pha ffactorau yr ydych yn ystyried sydd yn gyfrifol am y cynnydd neu'r gostyngiad a gafwyd yn y nifer hwn erbyn 1999-2000? (OAQ6087)

**Christine Gwyther:** Yn 1989 yr oedd cyfanswm y defaid a'r ŵyn yng Nghymru ychydig o dan 10,755,000, ac o blith y rhain yr oedd tua 5,111,000 yn ddefaid magu. Yn 1999 yr oedd tua 11,770,000 o ddefaid ac ŵyn, ac o blith y rhain yr oedd tua 5,900,000 yn ddefaid magu.

Y farn gyffredinol yw mai argaeledd cymhorthdal o dan y cynllun premiwm blynyddol defaid yw'r prif ffactor sydd yn cyfrannu at y cynnydd yn niferoedd y defaid yn ystod y cyfnod hwn. Am fod y cynllun premiwn blynyddol defaid yn daliad y pen, cafodd ffermwyr eu hannog i ganolbwyntio'n fwy ar nifer anifeiliaid, yn hytrach nag ar eu hansawdd.

### Cynigion Datblygu Gwledig

**C12 Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i gwrdd â gweinidogion amaeth eraill y DU i drafod penderfyniad yr Undeb Ewropeaidd i wrthod cynigion datblygu gwledig y Cynulliad? (OAQ6089)

**Christine Gwyther:** Nid yw'r Undeb Ewropeaidd wedi gwrthod y cynigion a gyflwynwyd yng nghynllun datblygu gwledig y Cynulliad. Mae wedi gofyn am wneud nifer o ddiwygiadau i'r cynigion, gan gynnwys y rhai sydd yn ymwneud â Thir Mynydd, y cynllun newydd ar gyfer taliadau iawndal i ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol yng Nghymru. Cyfarfûm â gweinidogion amaeth eraill yn y DU ar 14 Mehefin i drafod y mater hwn ac eraill.

## Rheoli Clafr Defaid yng Nghymru

**C13 Peter Rogers:** A wnaiff Christine Gwyther wneud datganiad ar reoli clafr defaid yng Nghymru? (OAQ6100) [R]

**Christine Gwyther:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn Cynulliad llafar OAQ5341 a atebwyd ar 24 Mai. Mae deddfwriaeth yn bod eisoes i reoli clafr defaid.

## Ymchwiliad Burns

**C14 Alun Cairns:** Pa gysylltiadau a fu rhwng Christine Gwyther ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yng ngoleuni ymchwiliad Burns? (OAQ6099)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn astudio'r adroddiad a byddaf yn cyflwyno unrhyw sylwadau y teimlaf fod eu hangen yng ngoleuni ei ganfyddiadau ac unrhyw wybodaeth bellach ar y dewisiadau deddfwriaethol sydd yn cael eu hystyried yn sgîl yr adroddiad.

## Gwahardd Hela Adloniannol (Rôl y Cynulliad)

**C15 John Griffiths:** Pa ran fydd y Cynulliad yn ei chwarae yn y ddadl ar wahardd hela adloniannol cyn y bleidlais arfaethedig ar y mater yn Nhŷ'r Cyffredin? (OAQ6051)

**Christine Gwyther:** Nid yw hela'n fater a ddatganolwyd a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw waharddiad. Fodd bynnag, ymgynghorir â'r Cynulliad ar bob cam o'r broses hon ac, o dan adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, caiff gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru yr ystyria eu bod yn angenrheidiol.

## Cynigion ar gyfer Tir Mynydd

**C16 Mick Bates:** Pryd wnaeth Christine Gwyther gwrdd â swyddogion ym Mrwsel ddiwethaf i drafod penderfyniad yr Undeb Ewropeaidd i wrthod cynigion y Cynulliad ar gyfer y cynllun Tir Mynydd ac a wnaiff hi wneud datganiad ar a mater? (OAQ6101) [R]

**Christine Gwyther:** Nid yw'r UE wedi gwrthod cynigion y Cynulliad ar gyfer Tir Mynydd; yn hytrach, mae wedi gofyn am wneud nifer o ddiwygiadau i un elfen o'r cynigion. Fe'm cynrychiolwyd mewn cyfarfod ym Mrwsel ym Mai i drafod y diwygiadau angenrheidiol, ac ers hynny bu fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i geisio cytuno ar gynigion diwygiedig.

## Cyfraniad Amaethyddiaeth i'r Gymru Wledig

**C17 Jocelyn Davies:** Ar wahân i'w weithgarwch economaidd, a wnaiff Christine Gwyther wneud datganiad am yr hyn mae amaethyddiaeth yn ei gyfrannu i'r Gymru wledig? (OAQ6074)

**Christine Gwyther:** Mae cyfraniad amaethyddiaeth i'r Gymru wledig yn ehangach o lawer na mesur cul o fewnbynnau ac allbynnau economaidd. Er enghraifft, mae iddi rôl arweiniol o ran cyflogaeth yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell, gan gynnal gwasanaethau a chymunedau gwledig yn ogystal â chyfrannu at dwristiaeth a'r amgylchedd. Dyna pam yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, a chyda'r diwydiant yn gyffredinol, i helpu ffermwyr i arallgyfeitio a symud tuag at gynhyrchu cynhyrchion o werth uwch. At hynny, mae ein cynllun datblygu gwledig yn cynnwys cymorth cynhwysfawr i fesurau amaeth-amgylcheddol a choedwigaeth, ardaloedd llai ffafriol a marchnata a phrosesu bwyd.

## Annog Pobl Ifanc i Sefydlu Busnesau Bach a Chanolig

**C18 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i annog pobl ifanc i sefydlu busnesau bach a chanolig mewn cymunedau gwledig? (OAQ6063)

**Christine Gwyther:** Mae rhai mesurau pwysig ar waith eisoes i gynorthwyo yn hyn o beth. Un fenter allweddol yw'r rhaglen dechreuadau busnes newydd, a reolir gan y cynghorau hyfforddi a menter, sydd yn ceisio helpu mentrau newydd o ansawdd da i ddechrau, tyfu a pharhau yn y tymor hwy. Mae'r cymorth a ddarperir—sydd yn cynnwys hyfforddi mewn sgiliau busnes hanfodol, cymorth wrth ddatblygu cynllun busnes cadarn a chymorth mentori ac ymgynghori parhaol, gan gynnwys ymweliadau mentori—yn berthnasol i Gymru gyfan, gan gynnwys pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, o dan Fargen Newydd y Llywodraeth i bobl ifanc, cefnogir y rhai sydd yn dymuno ymgymryd â hunangyflogaeth drwy Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymru.

At hynny, mae'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth newydd i Gymru'n ceisio helpu i sicrhau diwylliant entrepreneuraidd cryfach ledled Cymru a lefel uwch o lawer o ddechreuadau busnes newydd, gan ddefnyddio cymorth o dan Amcan 1 a'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd eraill. Dylai hyn roi hwb gwirioneddol i'r lefel gweithgaredd bresennol mewn rhannau gwledig o Gymru a rhannau eraill.

## Goroesiad Lladd-dai Bach

**C19 Michael German:** Pa gamau mae Christine Gwyther wedi eu cymryd i gynorthwyo lladd-dai bychain i oroesi? (OAQ6090)

**Christine Gwyther:** Cyhoeddodd y Llywodraeth fis Medi y llynedd, fel rhan o gyfres o adolygiadau cysylltiedig â'r diwydiant ffermio, sefydlu grŵp i edrych ar y baich rheoleiddiol ar ladd-dai. Cyhoeddodd y grŵp ei adroddiad ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ac ymatebodd y Llywodraeth ar ffurf cynllun gweithredu.

Prif ddiddordeb y Cynulliad fu ceisio lleihau'r baich ar ladd-dai bach a chanolig eu maint sydd â rhan bwysig i'w chwarae wrth gyflawni ein strategaeth bwyd ac a fydd yn helpu i ategu hyfywedd economaidd yr economi wledig/amaethyddol. Methodd y grŵp â chytuno ar argymhelliad ar y cwestiwn hwn ac mae'n argymell adolygiad pellach ar y mater hwn.

Sefydlwyd tasglu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd yn gyfrifol bellach am drwyddedu a materion rheoleiddiol eraill sydd yn ymwneud â lladd-dai, i edrych ar daliadau archwilio cig. Un o'i dasgau allweddol oedd ystyried dulliau eraill o leihau costau a wynebir gan weithfeydd trwygyrch isel.

Mae'r tasglu wedi cyhoeddi ei adroddiad bellach a byddaf yn ystyried ei argymhellion yn ofalus.

## Hela yng Nghymru (Penderfyniad y Cynulliad)

**C20 Christine Humphreys:** Ai'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn cael penderfynu ar hela yng Nghymru ac a fydd Christine Gwyther yn gwneud datganiad? (OAQ6066)

**Christine Gwyther:** Nid yn yr amgylchiadau presennol. Nid yw hela'n fater a ddatganolwyd a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw waharddiad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref y câi Aelodau Seneddol gyflwyno gwelliant i'r Mesur arfaethedig i roi'r pŵer i'r Cynulliad roi gwaharddiad ar waith yng Nghymru, ond byddai hynny'n fater i'w benderfynu gan y Senedd. At hynny, dylid nodi bod adroddiad Burns wedi argymell, oni bai fod rheswm da ar sail wrthrychol, mai anfoddhaol fyddai gweithredu darpariaethau deddfwriaethol gwahanol mewn gwahanol ranbarthau o Gymru a Lloegr

### Goblygiadau Ymchwiliad Burns yng Nghymru

**C21 Alun Cairns:** Pa oblygiadau sydd i Gymru o ymchwiliad Burns? (OAQ6098)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn dal i astudio'r adroddiad ond un o'i nodweddion mwyaf trawiadol yw'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd mynyddig, fel y rhai mewn llawer o rannau o Gymru, a'r ardaloedd tir isel yn Lloegr o ran ysglyfaethu gan lwynogod a dulliau o reoli eu niferoedd. Mewn ardaloedd mynyddig, canfu Pwyllgor Burns fod ysglyfaethu gan lwynogod ar ddefaid ac anifeiliaid hela yn fwy cyffredin ac mai'r dull mwyaf effeithiol o reoli'r boblogaeth llwynogod yn yr ardaloedd hyn oedd drwy eu saethu.

### Tymor Caeëdig ar Gyfer Pysgota Camlesi

**C22 Lynne Neagle:** A wnaiff Christine Gwyther ddweud pa bryd y gwneir penderfyniad ar y tymor caeëdig ar gyfer pysgota camlesi? (OAQ6084)

**Christine Gwyther:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr atoch ar 25 Mehefin. Gwneir penderfyniad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Adolygu Prisiau Llaeth yng Nghymru

**C23 Richard Edwards:** A oes gan Christine Gwyther unrhyw gynlluniau i adolygu prisiau llaeth yng Nghymru? (OAQ6062)

**Christine Gwyther:** Nac oes. Pennir pris llaeth gan ystyriaethau masnachol ac ni all y Cynulliad ymyrryd.

### Pwyllgor Pysgodfa Fôr i Gymru Gyfan

**C24 William Graham:** Pa ymdrechion mae hi wedi eu gwneud neu am eu gwneud i greu pwyllgor pysgodfa fôr i Gymru gyfan? (OAQ6095)

**Christine Gwyther:** Mae pwyllgorau pysgodfeydd môr yn bwyllgorau llywodraeth leol ac mae eu swyddogaethau ariannu a rheoli'n faterion i aelodau cyfansoddol y pwyllgorau. Mae cwestiwn pwyllgor pysgodfeydd môr i Gymru gyfan yn fater felly i awdurdodau lleol.

### Adolygu'r Baich Biwrocrataidd sydd yn Wynebu Ffermwyr

**C25 Peter Black:** Pa gamau mae hi wedi eu cymryd i adolygu'r baich biwrocrataidd sydd yn wynebu ffermwyr? (OAQ6059)

**Christine Gwyther:** Cyhoeddodd y Llywodraeth gyfres o adolygiadau fis Medi y llynedd fel rhan o becyn cymorth i'r diwydiant ffermio. Sefydlwyd grwpiau annibynnol i edrych ar dri maes allweddol lle y derbyniwyd bod beichiau rheoleiddiol yn arbennig o feichus:

- y diwydiant cig
- y System Integredig Gweinyddu a Rheoli ac archwiliadau fferm
- y system ymyrraeth.

Rhoddodd yr holl grwpiau eu hadroddiadau cyn y Nadolig ac ymatebodd y Llywodraeth drwy gynllun gweithredu.

Y maes mwyaf sensitif yw'r diwydiant cig. Edrychodd y grŵp hwnnw ar reoleiddio lladd-dai a cheisiodd ddynodi meysydd lle y gellid ysgafnhau'r baich, mewn modd sydd yn gyson â pharhau i sicrhau diogelwch bwyd a pharchu rhwymedigaethau iechyd a lles anifeiliaid. Dynododd yr adroddiad rai meysydd lle y gellid symleiddio rheoleiddio ond yr oedd y cyfle i wneud hyn yn gyfyngedig: mae llawer

o'r rheoliadau hyn yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu o gyfraith y DU a wnaethpwyd er mwyn gwarchod diogelwch y cyhoedd.

Prif ddiddordeb y Cynulliad fu ceisio lleihau'r baich ar ladd-dai bach a chanolig eu maint sydd â rhan bwysig i'w chwarae wrth gyflawni ein strategaeth bwyd ac a fydd yn helpu i ategu hyfywedd economaidd yr economi wledig/amaethyddol. Methodd y grŵp â chytuno ar argymhelliad ar y cwestiwn hwn ac argymhellodd adolygiad pellach ar y mater hwn.

Sefydlwyd tasglu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd yn gyfrifol bellach am drwyddedu a materion rheoleiddiol eraill cysylltiedig â lladd-dai, i edrych ar daliadau archwilio cig. Un o'i dasgau allweddol oedd ystyried dulliau eraill o leihau costau a wynebir gan weithfeydd trwygyrch isel. Mae'r tasglu wedi cyhoeddi ei adroddiad bellach a byddaf yn ystyried ei argymhellion yn ofalus.

Yn ogystal â'r adolygiadau Llywodraeth hyn, yr wyf wedi comisiynu arolwg ffôn dwyieithog o 3,000 o ffermwyr yng Nghymru. Dechreuodd yr arolwg, a elwir yn Arolwg Cwsmeriaid Ffermio Cymru 2000, ar 21 Mehefin ac mae'n gwahodd ffermwyr i ddweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol am y math o welliannau y carent eu gweld yng ngrantiau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a gweinyddu talu cymorthdaliadau, gyda'r nod benodol o hwyluso eu bywydau. Diben y cwestiynau a ofynnir i ffermwyr yw darganfod y cyrff sector cyhoeddus eraill y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol weithio mewn partneriaeth â hwy er mwyn rhesymoli'r galw ar amser ffermwyr. Mae hefyd yn holi a yw gwasanaethau ar gael ar yr adegau mwyaf defnyddiol o'r dydd ac wedi eu lleoli yn y lleoedd mwyaf hwylus, yn ogystal â pha wybodaeth y mae ar ffermwyr ei hangen er mwyn peri bod rhedeg eu busnesau'n llai beichus. At hynny, mae'r arolwg yn chwilio am ddulliau i'w gwneud yn haws defnyddio ffurflenni hawlio ac i gasglu data ar raddau'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth gan ffermwyr a dulliau amrywiaethu. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cofnodi profiadau ac anghenion ffermwyr yn ffurfiol, gan eu defnyddio i oleuo strategaethau er mwyn darparu gwasanaeth sydd yn fwy cwsmer-ganolog. Bydd y canlyniadau ar gael yng Ngorffennaf.

### Gwaith Amaethyddol Tymhorol (Cyflog Isel a Diffyg Sicrwydd)

**C26 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i ymladd cyflogau isel a diffyg sicrwydd swyddi ymysg gweithwyr amaethyddol tymhorol yng Nghymru? (OAQ6091)

**Christine Gwyther:** Mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i Gymru a Lloegr yn gyfrifol am negodi a phenderfynu ar isafswm y graddfeydd tâl, a'r telerau a'r amodau cyflogaeth, y mae'n rhaid i gyflogwyr eu dilyn os ydynt yn cyflogi gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Rhoddir pwerau i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948 (fel y'i diwygiwyd) i wneud Gorchmynion sydd â grym cyfreithiol ac a orfodir yng Nghymru gan Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r amodau a gymhwysir ar hyn o bryd—gan gynnwys y rhai ar gyfer gweithwyr a gyflogir i ymgymryd â chyfnodau byr o waith dros dro neu dymhorol un ai fel gweithwyr arferol neu rai dros dro—wedi eu gosod yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2000 (Rhif 1) a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2000.

### Cyfraniad Amaethyddiaeth yng Nghymoedd De Cymru

**C27 Janet Ryder:** Sut mae amaethyddiaeth yn cyfrannu at yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd yng nghymoedd de Cymru? (OAQ6075)

**Christine Gwyther:** Er bod llechweddau isaf cymoedd de Cymru wedi eu datblygu'n drwchus, mae'r bryniau agored uwchben yn nodwedd ddeniadol, bwysig sydd yn ychwanegu at gymeriad gwrthgyferbyniol yr ardal. Mae cyfraniad amaethyddiaeth i'r economi leol yn gymharol fach, ond mae'n holl bwysig er mwyn diogelu tirwedd agored y bryniau uwchben, a hefyd wrth ddarparu gwaith a chyfrannu at les cymdeithasol cymunedau'r Cymoedd.

### Cynnyrch Milfeddygol (Prisiau Uchel)

**C28 Peter Rogers:** Pa drafodaethau mae hi wedi'u cynnal gyda gweithgynhyrchwyr cynnyrch milfeddygol i drafod prisiau uchel cynnyrch milfeddygol yng Nghymru? (OAQ6156)

**Christine Gwyther:** Cyfeiriaf at fy ateb a roddwyd i chi ar 8 Mehefin 2000 mewn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig WAQ5380, WAQ5382, WAQ5383, WAQ5384 a WAQ5385. Nid yw'r adolygiadau y cyfeiriais atynt bryd hynny wedi eu cwblhau eto. Pan gwblheir hwy, byddaf yn ystyried a fyddai trafodaethau â'r gweithgynhyrchwyr yn fuddiol.

### Mesur Safonau Byw

**C29 Elin Jones:** Beth yw'r dull gorau i fesur safon byw yn y Gymru wledig? (OAQ6150)

**Christine Gwyther:** Mae grŵp prosiect ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu mynegai aml-amddifadedd newydd. Bydd y mynegai hwn yn darparu data fesul adran etholiadol (ward) ledled Cymru. Ceir mynegai incwm a fydd yn rhoi ffordd wrthrychol o gymharu cyfran y bobl ar incwm isel mewn ardaloedd gwledig a threfol. Bydd y data hefyd yn darparu mynegai ar wahân ar gyfer tlodi ymhlith plant. Cyhoeddir mynegai aml-amddifadedd Cymru yn ystod yr haf eleni.

### Mynd i'r afael â Thlodi yn y Gymru Wledig

**C30 Brian Hancock:** Yn unol â'i chyfrifoldeb fel yr Ysgrifennydd Amaethyddiath a Datblygu Gwledig, sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu mynd i'r afael â phroblemau tlodi yn y Gymru wledig? (OAQ6068)

**Christine Gwyther:** Mae tlodi'n deillio o amrediad eang o ffactorau fel diweithdra, iechyd gwael ac anfantais gymdeithasol. Yr ydym yn cymryd camau eisoes mewn sawl cyfeiriad er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi mewn ardaloedd gwledig a ledled Cymru gyfan.

Bydd cymunedau gwledig yn elwa'n uniongyrchol o raglenni a mentrau domestig ac Ewropeaidd fel Rhoi Cymunedau'r Gyntaf, y gronfa adfywio lleol newydd, y rhaglenni Amcan 1 a 2 a'r rhaglen weithredol Amcan 3. Gyda'i gilydd, maent yn darparu amrediad cynhwysfawr o fesurau i helpu i atal dirywiad economaidd, hybu cyflogaeth, creu cyfoeth ac ymladd allgáu cymdeithasol drwy dargedu gweithredu ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Oddi mewn i faes fy nghyfrifoldeb i, mae'r cynllun datblygu gwledig yn ddogfen bwysig sydd yn cynnwys cymorth penodol er mwyn addasu a datblygu cymunedau gwledig er mwyn gwella gwasanaethau sylfaenol, hybu arallgyfeirio a hybu ffynonellau incwm eraill.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Mynediad Cyfartal i Addysg Gymraeg

**C3 Alun Cairns:** Ym mha fodd mae'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn sicrhau bod mynediad cyfartal ar gael i addysg Gymraeg ar draws yr holl awdurdodau addysg lleol? (OAQ6111)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mae awdurdodau addysg lleol yn gyfrifol am gynllunio a darparu ar gyfer addysg y plant yn eu hardal. Dylent roi ystyriaeth i wahanol fathau o addysg a ffafrir gan rieni pan fo hyn yn gyson â defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mewn ardaloedd lle y mae galw cynyddol am addysg Gymraeg, disgwyliaf i awdurdodau addysg lleol ddatblygu cynigion er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth yn eu cynlluniau trefniadaeth ysgolion.

## Cefnogaeth i Ysgolion Bach Gwledig

**C5 Kirsty Williams:** Pa gefnogaeth a gynigir gan y Cynulliad i ysgolion bach gwledig? (OAQ6041)

**Rosemary Butler:** Ariannir pob ysgol drwy setliad refeniw llywodraeth leol. Rhoddwyd ystyriaeth i effaith teneurwydd poblogaeth ar y gost o ddarparu gwasanaethau yn yr adolygiad o'r fformwla a ddefnyddia'r Cynulliad i ddosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol. Bydd y canlyniadau, sydd i'w cyhoeddi ar 3 Gorffennaf, yn ystyried y defnydd posibl o deneurwydd poblogaeth fel dangosydd wrth gyfrifo gwahanol elfennau o'r fformwla. Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylai'r fformwla gynnwys elfen ar gyfer teneurwydd poblogaeth ynglŷn ag ysgolion ar ôl ymgynghori ag awdurdodau lleol ac eraill.

## Hyrwyddo'r Defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C6 David Lloyd:** Sut y bydd Rosemary Butler yn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wrth gyflwyno'r cwricwlwm yng Nghymru? (OAQ6133)

**Rosemary Butler:** Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ofyniad trawsbynciol ar gyfer holl bynciau'r cwricwlwm. Cyfeirir yn eglur at gyfleoedd i ddatblygu sgiliau TG y disgyblion yn nogfennau'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, a chroesawyd hyn gan yr athrawon. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y Cynulliad yn darparu dros £20 miliwn o gyllid ar gyfer offer a hyfforddiant TGCh mewn ysgolion er mwyn cynnal prosiectau arfer gorau mewn dysgu ac addysgu. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar ei rhaglen hyfforddi TGCh ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr.

## Gwaith Atgyweirio sydd ei Angen ar Adeiladau Ysgolion

**C7 Peter Black:** Beth yw asesiad presennol Rosemary Butler ynghylch yr holl waith atgyweirio sydd ei angen ar adeiladau ysgolion yng Nghymru? (OAQ6057)

**Rosemary Butler:** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif bod ôl-groniad yr atgyweiriadau ar adeiladau ysgolion tua £325 miliwn.

## Datblygu Syniadau Arloesol a Chadarn

**C8 Jocelyn Davies:** Sut y bydd Rosemary Butler yn sicrhau ein bod yn datblygu syniadau arloesol a chadarn i ddiwallu'n hanghenion addysgol penodol? (OAQ6110)

**Rosemary Butler:** Byddwn yn parhau i seilio ein polisïau addysg ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch yr hyn sydd yn gwneud gwahaniaeth mewn ysgolion. Byddwn hefyd yn parhau â'n hymrwymiad i sefydlu fframwaith polisi ar gyfer addysg yng Nghymru lle y bydd pob cyfle i athrawon arfer eu sgiliau creadigol a phroffesiynol.

## Dadansoddi Ystagedau Arholiadau

**C9 Mick Bates:** A wnaiff Rosemary Butler ddadansoddi ystadegau arholiadau Cymru, a hynny'n rheolaidd, gyda'r bwriad o amlygu'r meysydd lle y ceir arferion da a'r rhai lle y ceir problemau? (OAQ6115)

**Rosemary Butler:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn cyhoeddi crynodebau o ganlyniadau TGAU a'r cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol cyffredinol (GNVQ) ar gyfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol bob blwyddyn. Mae cyfarwyddiaeth ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol yn ategu'r wybodaeth hon drwy gyhoeddi ystadegau arholiadau ar lefel Cymru, yr awdurdodau addysg lleol ac ardaloedd etholaeth y Cynulliad. Mae adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd hefyd yn cynnwys sylwadau ar safonau cyrhaeddiad ledled Cymru. Mae'r amrediad gwybodaeth hwn, o'i ategu â dadansoddiadau a gynhyrchir yn lleol, yn galluogi ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i ddynodi cryfderau a gwendidau a rhoi canlyniadau mewn cyd-destun lleol a chenedlaethol.

## Cyfle Cyfartal i Athrawon Cymru

**C10 Helen Mary Jones:** Sut y bydd Rosemary Butler yn sicrhau y rhoddir cyfle cyfartal i athrawon Cymru? (OAQ6125)

**Rosemary Butler:** Mae athrawon yn gyfartal o ran tâl ac amodau gwasanaeth a bennir ar gyfer Cymru a Lloegr. Yr wyf yn annog awdurdodau addysg lleol, llywodraethwyr a phenaethiaid ysgol i weithredu'n unol ag egwyddorion cyfle cyfartal yn eu holl ymwneud ag athrawon.

## Casglu Canlyniadau TASau

**C11 Michael German:** A wnaiff Rosemary Butler gyflwyno polisi ar gyfer casglu canlyniadau TASau ar wahân ar gyfer unedau anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion sydd yn cynnwys unedau o'r fath? (OAQ6040)

**Rosemary Butler:** Datblygwyd system marcio a chasglu data allanol i gyfnod allweddol 2 a 3 er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion ac athrawon. Byddai casgliadau ar wahân oddi wrth ysgolion yn ychwanegu at y trefniadau presennol. Nid yw'r Cynulliad yn cyhoeddi'r data a gasglwyd ar sail ysgolion unigol; gwneir hynny gan yr ysgolion drwy eu prosbectysau ac adroddiadau blynyddol eu llywodraethwyr. Mae ysgolion sydd â dosbarthiadau neu unedau dynodedig yn rhydd i gyhoeddi dwy set o ddata er mwyn helpu i roi eu canlyniadau yn eu cyd-destun. Mae'r set gyntaf, sydd yn berthnasol i bob ysgol, ar gyfer yr holl ddisgyblion yn yr ysgol ac mae'r ail set ar gyfer disgyblion y brif ffrwd yn unig.

## Ysgolion Arbenigol yng Nghymru

**C12 Richard Edwards:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad byr ynghylch ysgolion arbenigol yng Nghymru? (OAQ6048)

**Rosemary Butler:** Mae pa un a yw ysgol yn dymuno datblygu hunaniaeth neu arbenigedd penodol mewn technoleg, ieithoedd, chwaraeon, y celfyddydau neu feysydd eraill, yn fater i'w benderfynu gan ysgolion. Nid oes gennym fwriad i newid y polisi hwn.

## Hyrwyddo Bwyta Iach ymysg Plant Ysgol

**C13 Lynne Neagle:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i hyrwyddo bwyta iach ymysg plant ysgol? (OAQ6086)

**Rosemary Butler:** Dylid hyrwyddo bwyta iach mewn ysgolion fel rhan o ddull cyfannol o wella iechyd. I'r perwyl hwn, yr ydym yn annog yr holl adrannau addysg lleol i weithio mewn partneriaeth â'u hawdurdodau iechyd i ddatblygu cynlluniau i hybu iechyd mewn ysgolion sydd yn gallu ymgeisio i gael eu hachredu fel rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgol iach.

Dosbarthir cyfarwyddyd drafft a rheoliadau drafft ar safonau maeth ar gyfer prydau ysgol er mwyn ymgynghori yn yr hydref.

Mae prosiect ymchwil ar gyfraniad siopau ffrwythau mewn ysgolion at wella ymborth yn mynd rhagddo yn ne Cymru a Bryste. Bydd y canlyniadau'n arwain polisi yn y dyfodol.

O ran y cwricwlwm dysgu, mae lle amlwg i fwyd, maetheg a materion iechyd cysylltiedig eraill yn y rhaglenni astudio ar gyfer y gwyddorau, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg. Fe'u cynhwysir hefyd yn y fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar le bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru, a fydd yn cyfuno'r elfennau hyn. Mae cyfarwyddyd ar gyfer athrawon ysgol gynradd ar gael hefyd ar wefan yr isadran hybu iechyd www.hpw.wales.gov.uk/schools.

## Dadansoddi Ffigurau Triwantiaeth ac Absenoldeb

**C14 Peter Black:** A yw Rosemary Butler wedi gwneud dadansoddiad o ffigurau triwantiaeth ac absenoldeb ar gyfer ysgolion Cymru gyda'r bwriad o amlygu'r arfer gorau? (OAQ6039)

**Rosemary Butler:** Mae cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn cynnwys cyfarwyddyd i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ar amrediad o fesurau ymarferol i herio anawsterau presenoldeb ysgolion.

Mae 'Gwellcymru.com' yn gosod y targedau er mwyn gwella'r gyfradd presenoldeb gyffredinol ysgolion.

Bydd fy swyddogion ynghyd â'r awdurdodau addysg lleol yn monitro effeithiolrwydd gweithgareddau i fynd i'r afael â thriwantiaeth ac absenoldeb a byddant yn hyrwyddo rhannu ymarferiadau y dangosir eu bod yn effeithio'n gadarnhaol ar ymagwedd disgyblion at bresenoldeb yn yr ysgol.

## Y Gyfran o Gyllidebau Awdurdodau Lleol sydd yn Cael ei Gwario ar Addysg

**C15 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Rosemary Butler wedi eu cael â'r awdurdodau addysg lleol gyda'r bwriad o gau'r gagendor sydd yn bodoli o ran y gyfran o'u cyllidebau y mae awdurdodau lleol yn ei gwario ar addysg? (OAQ6037)

**Rosemary Butler:** Yr wyf wedi gofyn i'r awdurdodau edrych yn ofalus ar anghenion eu gwasanaeth addysg gan gymryd i ystyriaeth y pwysau, a dyrannu o leiaf eu cyfran hwy o'r £91 miliwn o wariant ychwanegol ar gyfer addysg a hwyluswyd drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol am 2000-01 i'w cyllidebau addysg.

## Datblygu Ysbryd Tîm o fewn Gwasanaethau Addysg

**C16 Janet Ryder:** A wnaiff Rosemary Butler roi amlinelliad o sut y bydd ei pholisïau cyfredol yn datblygu ysbryd tîm o fewn gwasanaethau addysg? (OAQ6109)

**Rosemary Butler:** Mae'r holl awdurdodau addysg lleol bellach wedi rhoi cynlluniau strategol addysg ar waith sydd yn disgrifio eu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod Ebrill 1999 hyd Fawrth 2002. Mae'r cynlluniau hyn yn ganlyniad i ymgynghori manwl rhwng awdurdodau addysg lleol ac ysgolion, ac mewn llawer achos â chyrff statudol, gwirfoddol a lleol eraill sydd â rhan i'w chwarae.

## Mynd i'r Afael â'r Ôl-Groniad Mawr mewn Atgyweirio Ysgolion

**C17 Christine Humphreys:** Sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu mynd i'r afael â'r ôl-groniad mawr mewn atgyweirio ysgolion yng Nghymru? (OAQ6045)

**Rosemary Butler:** Yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n gyfrifol am atgyweirio, cynnal a chadw a darparu adeiladau ysgol newydd yng Nghymru.

## Datblygu Bagloriaeth Gymreig

**C18 Pauline Jarman:** Pryd y mae Rosemary Butler yn bwriadu comisiynu astudiaeth ar sut y gellid datblygu bagloriaeth Gymreig yng Nghymru? (OAQ6134)

**Rosemary Butler:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddodd y Prif Ysgrifennydd i David Lloyd ar 20 Mehefin (OAQ5816).

## Grantiau ar gyfer Graddedigion sydd yn Hyfforddi i fod yn Athrawon Cynradd

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Rosemary Butler gyflwyno grantiau ar gyfer graddedigion sydd yn hyfforddi i fod yn athrawon cynradd? (OAQ 6127)

**Rosemary Butler:** Mae'r grantiau hyfforddi a dysgu a gyhoeddais ar gael ar gyfer pynciau uwchradd gan fod darparwyr hyfforddiant athrawon dechreuol yn profi anawsterau ers cryn amser wrth gyrraedd y targedau ar gyfer derbyn darpar athrawon uwchradd. Bydd adolygiad a fydd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw effaith ar dderbyn rhai i'w hyfforddi ar gyfer dysgu mewn ysgolion cynradd.

## Monitro Secondiadau o Undebau Addysgu i Awdurdodau Addysg Lleol

**C20 Michael German:** Pa reoliadau sydd i fonitro secondiadau o undebau addysgu i awdurdodau addysg lleol? (OAQ6128)

**Rosemary Butler:** Mae hyn yn fater i awdurdodau addysg lleol. Nid oes trefniadau i fonitro secondiadau o undebau athrawon i awdurdodau addysg lleol.

## Cynghorwyr Polisi'r Cabinet

**C21 Jenny Randerson:** A all cynghorwyr polisi'r Cabinet fod â rhan mewn polisi addysg? (OAQ6145)

**Rosemary Butler:** Gallant. Penodir ymgynghorwyr polisi'r Prif Ysgrifennydd a'r Cabinet i gynghori ar ddatblygu polisi'r Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys polisi addysg.

## Rôl y sgiliau Allweddol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol

**C22 Richard Edwards:** A wnaiff Rosemary Butler roi datganiad byr ar y rhan a chwaraeir gan fedrau allweddol yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru? (OAQ6046)

**Rosemary Butler:** Mae'r sgiliau allweddol yn holl bwysig i ddyfodol Cymru. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn addysg, yn y sector statudol a'r tu hwnt. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno'r cymhwyster sgiliau allweddol newydd, a fydd ar gael o fis Medi eleni. Oddi mewn i'r cwricwlwm cenedlaethol, tynnir sylw at gyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau allweddol yn y rhaglenni astudio ar gyfer pob pwnc drwy ddefnyddio eiconau.

## Cynyddu Canran y Myfyrwyr sydd yn Sefyll Arholiadau CBAC

**C23 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i gynyddu canran y myfyrwyr yng Nghymru sydd yn sefyll arholiadau CBAC? (OAQ6118)

**Rosemary Butler:** Dim. Mae hyn yn fater i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Fodd bynnag, mae gennyf y parch mwyaf at waith CBAC.

## Denu Athrawon i Gefn Gwlad Cymru

**C24 Peter Rogers:** A wnaiff Rosemary Butler adrodd ar yr angen i gynnig cymhellion ariannol er mwyn denu athrawon i gefn gwlad Cymru? (OAQ6106)

**Rosemary Butler:** Mae tâl ac amodau gwasanaeth athrawon yn gyfrifoldeb i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. O Fedi 2000, bydd amrediad o dri lwfans recriwtio a chadw yn cymryd lle'r system bresennol o bwyntiau recriwtio a chadw. Gellir dyfarnu'r lwfans cyntaf neu'r ail yn ôl doethineb y corff perthnasol i athrawon mewn ysgolion yn gyffredinol. Mae'r trydydd lwfans yn berthnasol i Lundain fewnol, ac i ysgolion sydd o dan fesurau arbennig.

### Lleihau'r Nifer o Ysgolion sydd yn Cau mewn Ardaloedd Gwledig

**C25 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i leihau'r nifer o ysgolion sydd yn cau mewn ardaloedd gwledig? (OAQ6120)

**Rosemary Butler:** Mae cynigion ar gyfer cau yn fater i awdurdodau lleol. Pan geir gwrthwynebiad i gynnig statudol a hwnnw'n dod ataf fi i'w benderfynu, fe'i barnaf yn ôl ei rinweddau. Prin fu'r cynigion o'r fath yn ddiweddar. Cymeradwyais ddau gynnig oddi wrth awdurdod addysg lleol Sir Benfro i gau ysgolion gwledig yn ardal Preseli. Mewn un achos mae'r ysgol dan sylw'n cael ei chyfuno ag ysgol wledig leol arall. Yn y llall, caeir dwy ysgol a sefydlir ysgol wledig leol newydd yn adeiladau un o'r ysgolion a gaewyd. Yn y flwyddyn cyn i'r Cynulliad ddod i fodolaeth yr oedd dau gynnig i gau ysgolion gwledig. Ym mhob achos cafwyd ysgolion gwledig cyfunedig o ganlyniad i'r cau.

### Grantiau i Raddedigion sydd yn Hyfforddi i fod yn Athrawon Cynradd

**C26 Cynog Dafis:** Pryd y bydd Rosemary Butler yn cyflwyno grantiau i raddedigion sydd yn hyfforddi i fod yn athrawon cynradd? (OAQ6126)

**Rosemary Butler:** Mae'r grantiau hyfforddi a dysgu a gyhoeddais ar gael ar gyfer pynciau uwchradd gan fod darparwyr hyfforddiant athrawon dechreuol yn profi anawsterau ers cryn amser wrth gyrraedd y targedau ar gyfer derbyn darpar athrawon uwchradd. Bydd adolygiad a fydd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw effaith ar dderbyn rhai i'w hyfforddi ar gyfer dysgu mewn ysgolion cynradd.

### Efelychu'r Fenter Ysgolion Disglair

**C27 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i efelychu'r fenter ysgolion disglair yng Nghymru? (OAQ6130)

**Rosemary Butler:** Mae annog ysgolion i ddysgu oddi wrth arfer llwyddiannus a ddefnyddir mewn mannau eraill yn elfen ganolog yn ein polisi ar gyfer codi safonau mewn ysgolion. Gellir ariannu prosiectau sydd yn galluogi ysgolion llwyddiannus i rannu elfennau hanfodol o'u llwyddiant o dan y gronfa gwella ysgolion o £1.5 miliwn, sydd yn rhan o'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant.

### Ymweld ag Ysgolion Anghenion Arbennig yn Rhondda Cynon Taf

**C28 Jane Davidson:** A wnaiff Rosemary Butler ymweld ag ysgolion anghenion arbennig yn Rhondda Cynon Taf fel rhan o'i rhaglen, yn benodol Tŷ Coch ac Ysgol Arbennig Rhondda? (OAQ6034)

**Rosemary Butler:** Byddwn yn falch o ymweld â'r ysgolion hyn pan geir cyfleoedd addas ac yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion eu cynnwys fel rhan o'm rhaglen o ymweliadau yn y dyfodol.

### Lleihau'r Achosion o Fwlio

**C29 Lynne Neagle:** Sut y gall y Cynulliad gynorthwyo ysgolion i leihau'r achosion o fwlio? (OAQ6085)

**Rosemary Butler:** O dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae penaethiaid ysgol yn gorfod sicrhau bod eu hysgol wedi rhoi mesurau effeithiol ar waith i atal pob ffurf ar fwlio ymysg disgyblion.

Mae cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', a gyhoeddwyd fis Medi diwethaf, yn cyflwyno cyfarwyddyd ymarferol ar hybu ymddygiad a disgyblaeth dda ymysg disgyblion, gan gynnwys cyngor ar strategaethau gwrthfwlio effeithiol. Mae copi o'r cylchlythyr yn y Llyfrgell.

## Canran y Myfyrwyr TGAU a Safodd Arholiadau CBAC y Llynedd

**C30 Brian Hancock:** Faint oedd canran y myfyrwyr TGAU yng Nghymru a safodd arholiadau CBAC y llynedd o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl? (OAQ6119)

**Rosemary Butler:** Ni chaiff yr wybodaeth a geisir ei chasglu'n ganolog.